OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 459 (Cy. 145)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd wrth Gyfnewidfa Castell-nedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 wedi eu hatal

dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.** (1) Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Castell-nedd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Castell-nedd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt pont Camlas Tennant hyd at ganolbwynt pont Afon Clydach, pellter o 750 o fetrau.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ddiwedd y gilfan, i'r dwyrain o Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at ganolbwynt pont droed Castell-nedd, pellter o 1.1 cilomedr.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt pont Afon Clydach hyd at ganolbwynt pont droed Castell-nedd, pellter o 1.4 cilomedr.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o ganolbwynt pont droed Castell-nedd am bellter o 875 o fetrau.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.